PRIFYSGOL ABERYSTWYTH UNIVERSITY

Aberystwyth University

Diberfeddu Cenedlaetholdeb

Edwards, Catrin Wyn

Published in:
O'r Pedwar Gwynt

Publication date:
2023

Citation for published version (APA):
Edwards, C. W. (2023). Diberfeddu Cenedlaetholdeb: National Affects gan Angharad Closs Stephens. *O'r Pedwar Gwynt*, *22*. https://pedwargwynt.cymru/adolygu/diberfeddu-cenedlaetholdeb

Document License
CC BY

General rights
Copyright and moral rights for the publications made accessible in the Aberystwyth Research Portal (the Institutional Repository) are retained by the authors and/or other copyright owners and it is a condition of accessing publications that users recognise and abide by the legal requirements associated with these rights.

• Users may download and print one copy of any publication from the Aberystwyth Research Portal for the purpose of private study or research.
• You may not further distribute the material or use it for any profit-making activity or commercial gain
• You may freely distribute the URL identifying the publication in the Aberystwyth Research Portal

Take down policy
If you believe that this document breaches copyright please contact us providing details, and we will remove access to the work immediately and investigate your claim.

tel: +44 1970 62 2400
email: is@aber.ac.uk

Download date: 27. Feb. 2024

Diberfeddu cenedlaetholdeb

Catrin Wyn Edwards

Ar 23 Mawrth 2020, daeth y *cyfnod clo* cyntaf i rym yn y Deyrnas Unedig yn sgil pandemig Covid-19. Roeddwn i'n feichiog ers saith wythnos â'n hail blentyn ac roedd gen i gynlluniau cyffrous ar gyfer y flwyddyn, gan gynnwys priodas ffrind ym mis Mai a chynhadledd ymchwil ym Mhortiwgal ym mis Awst. Bu'r misoedd canlynol yn gyfnod o ansicrwydd a nerfusrwydd wrth i mi fynychu apwyntiadau ysbyty ar fy mhen fy hun; straen a diflastod wrth i fy ngŵr a minnau geisio cadw'r ddysgl yn wastad rhwng gofynion gwaith a diddanu plentyn dwyflwydd; ac anghrediniaeth yn sgil penderfyniadau anfoesol Llywodraeth San Steffan a'r miloedd ar filoedd o farwolaeth-au a fu o ganlyniad i Covid-19. Ond rhwng y cyfnodau o olchi dwylo a golchi cynnyrch o'r archfarchnad, glanhau'r gegin am y milfed tro, a darllen am farwolaethau ac anghyfiawnderau, roedd adegau o law-enydd a hynny yn sgil y cysylltiadau rhyngbersonol. Picnic a brwydr ddŵr 'dros ffens' i ddathlu fy mhen-blwydd gyda chymdogion, degau o sgyrsiau Skype gyda theulu a ffrindiau, ac ymddiddan gan gadw pellter wrth ddisgwyl fy nhro o flaen y siop fara... Roedd rhywbeth arbennig, newydd yn yr ymwneud clòs hwn.

Y cysylltiadau agos hyn rhwng unigolion, a rôl emosiwn, teimladau ac awyrgylch pethau, sy'n mynd â sylw Angharad Closs Stephens yn ei chyfrol *National Affects: The Everyday Atmospheres of Being Political* wrth iddi geisio gwneud synnwyr o genedlaetholdeb a gwleid-yddiaeth fyd-eang. Cawn ddadansoddiad ganddi o'r ffordd y mae'r elfennau hyn yn dylanwadu ar ein hymateb i ddigwydd-iadau o arwyddocâd rhyngwladol, megis angladd Margaret Thatcher yn 2013, Brexit, neu'r 'argyfwng' ffoaduriaid yn Ewrop. Yn wahanol i astudiaethau traddodiadol ym maes Cysylltiadau Rhyngwladol (*Inter-national Relations*), sydd â'u ffocws ar wladwriaethau, mae'r llyfr hwn wedi ei wreiddio ar raddfa leol, gymunedol a rhyngbersonol. Wrth fynd ati i geisio datblygu ffordd newydd o ystyried cenedlaetholdeb y tu hwnt i'r genedl-wladwriaeth, mae'r awdur yn ein tywys ar ei thaith bersonol hithau o ogledd-ddwyrain Lloegr i Abertawe, lle mudodd yn ystod cyfnod ysgrifennu'r llyfr gyda'i theulu ifanc. Cawn ddarlun o'i phrofiad yn setlo yn y ddinas a'r prosesau econ-omaidd, cymdeithasol a gwleidyddol byd-eang sy'n dylanwadu ar gymeriad dinas Abertawe hyd heddiw – o fod yn ganolfan gopr a phres ryngwladol a'i chysylltiadau â gwladychiad a chaethfasnach i'w statws fel 'Dinas Noddfa'.

Dros y blynyddoedd diwethaf, dyfn-hawyd tensiynau rhyngbersonol a chym-deithasol yn sgil argyfyngau'r pandemig, 'argyfwng' ffoaduriaid yn Ewrop, reff-erendwm Brexit, twf poblyddiaeth a'r adain dde eithafol, neu hirlwm dros ddegawd o lywodraeth Geidwadol yn San Steffan. Un agwedd arwyddocaol sy'n gyffredin iddynt yw gwleidyddiaeth 'ni' a 'nhw', gwleidyddiaeth sydd wedi ei bwydo gan naratifau lle mae unigolion neu grwpiau yn cael eu cyflwyno fel carfanau sy'n ben-ben â'i gilydd.

Er mwyn ceisio deall grym agosatrwydd ac ym-wneud rhwng pobl mewn cymdeithas lle mae naratif-au 'ni' a 'nhw' wedi magu gwreiddiau, mae Angharad Closs Stephens yn ein tywys ar hyd llwybrau ei gwaith maes wrth iddi ddadansoddi nofelau, perfformiadau, traf-odaethau gyda dawnswyr, cyfarwyddwyr theatr ac artistiaid. Ceir ganddi ddad-ansoddiad meddylgar o'r prosesau sy'n arwain at ffurfio naratifau a delweddau mewn amrywiol gyd-destunau a'r modd y maent wedyn yn symud o'r naill bau i'r llall, er enghraifft o'r cyfryngau cymdeith-asol i'r ystafell ddosbarth a'r archfarchnad. Plethir ystod o theorïau o faes gwleid-yddiaeth, cysylltiadau rhyngwladol, daearyddiaeth ddynol, straeon a pher-fformiadau gydag astudiaethau achos.

Trwy archwilio sut mae'r genedl a hunaniaeth genedlaethol yn amlygu eu hunain yn ein bywydau beunyddiol ac yn y manylion bychain, lleol, mae'r gyfrol hon yn gwneud cyfraniad arwyddocaol i drafodaethau ar genedlaetholdeb. Dad-ansoddir yn gynnil achosion lle mae cenedlaetholdeb 'lliwiau lliwgar' neu 'boeth' (Billig, 1995) i'w ddisgwyl — sef yr achosion amlwg neu eithafol o gened-laetholdeb, megis Gemau Olympaidd 2012 ac angladd Thatcher — trwy edrych tu hwnt i fynegiant amlwg o genedlaetholdeb. Rhoddir sylw manwl i rôl emosiwn, teim-ladau ac awyrgylch yn y broses o greu hunaniaeth genedlaethol.

Mae arddull agos-atoch yr awdur yn ein hannog i fyfyrio ar ein profiadau ni ein hunain o genedlaetholdeb a gwleid-yddiaeth, a'r ffordd rydym yn deall ac yn dehongli'r byd a'n cymunedau. 'Most accounts of global politics tell us that borders are marked on the ground. But they also emerge in our minds, guts, nerve endings and in the energies that pass between us,' meddai. Dyma frawddeg rymus sy'n cyfleu un o brif ddadleuon y gyfrol.

Tu hwnt i'r cyfraniad damcaniaethol arwyddocaol a wneir i drafodaethau ar genedlaetholdeb, perthyn a dinasyddiaeth, apêl y gyfrol yw ehangder ac amrywiaeth y deunydd a drafodir ynddi. Dadansoddir digwyddiadau rhyngwladol sy'n dwyn sylw'r wasg megis ymosodiadau ar swydd-fa'r cylchgrawn dychanol *Charlie Hebdo* ym Mharis a'r rhwydwaith Black Lives Matter ond gan hefyd bwysleisio'r angen i ddeall y 'cenedlaethol' ar lefel fwy lleol, megis yng ngŵyl ddawns Caerdydd, Sioe Awyr Cymru, Wal Goffa Genedlaethol Covid-19 yn Llundain neu noson yn y sinema. Mae ystyried y gwahanol raddfeydd a sef-yllfaoedd hyn yn cyfoethogi ein dealltwriaeth o wleid-yddiaeth ryngwladol a'r ffordd y mae'n cydio mewn gofodau cyffredin ac yn ein bywydau bob dydd.

Wrth ddarllen y llyfr, meddyliais am dasg rwy'n ei gosod i fyfyrwyr fy modiwl ar genedlaetholdeb yn y brifysgol yn Aberystwyth. Y dasg yw gwisgo lensys 'Billigaidd' neu 'genedlaetholdeb *banal*' am ddiwrnod. Drwy wneud defnydd ymarferol o theori Michael Billig (1995) – fod y genedl wedi ei chynrychioli mewn amrywiol ffyrdd o'n cwmpas a hynny drwy'r amser ac felly'n meithrin ym-deimlad cyffredin o berthyn cenedlaethol – anogaf y myfyrwyr i edrych yn feirniadol ar y ffordd y mae cenedlaetholdeb yn treiddio i'n bywydau beunyddiol. Baner Cymru ar focsiaid o wyau yn yr arch-farchnad, dyweder, neu faner Lloegr ar blât cofrestru car, y frenhines ar stamp neu flwch postio, cyfeiriadau at y genedl neu ymadroddion sy'n atgyfnerthu'r syniad o 'ni' a 'nhw' mewn erthyglau, blogiau neu ganeuon. Wedi darllen y gwaith cyfoethog hwn, sy'n ymdrin â materion dwys megis gwrth-safiad, senoffobia, cyfalafiaeth ac anghydraddoldebau hil, byddaf yn annog fy myfyrwyr i wisgo lensys 'Closs Stephens-aidd' am ddiwrnod hefyd a thalu sylw i'r ffordd rydym yn cyd-fyw ag eraill. Sut fyddwn ni'n gwrando ar eraill? Lleisiau pwy sydd wedi eu hynysu? Sut gallwn gefnogi ein gilydd a beth sy'n bygwth yr ymwneud hwn? Ac yn bwysicaf oll, efallai, mewn cyfnod lle mae naratifau 'ni' a 'nhw' yn gallu boddi naratifau eraill, beth yw gwaddol y gyd-ddibyniaeth a ddaeth yn elfen mor ganolog yn ein bywydau adeg y cyfnodau clo a'r pandemig? A oes ffyrdd eraill o ddeall ein gilydd?